TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Dyddiad cyhoeddi: 6 Ionawr 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

"Allwch chi lenwi'r Ffurflen Gais Rhyddid Gwybodaeth sydd ynghlwm a'i dychwelyd ataf gyda'r wybodaeth y gofynnir amdani."

Ar ôl adolygu eich cwestiwn, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:

Nid yw Trafnidiaeth Cymru yn darparu gwasanaethau Trafnidiaeth sy'n Ymateb i Alw, er ein bod ni'n gweithio gydag awdurdodau lleol i'w gweithredu. O ganlyniad, mae gan gynghorau Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Sir Benfro a Chonwy wasanaethau Trafnidiaeth Ymatebol Integredig, er mai gyda Trafnidiaeth Cymru y mae'r contractau meddalwedd ac maent yn cael eu hail-gaffael ar hyn o bryd.

Mae costau a dyddiadau'r meddalwedd fel a ganlyn:

Dyddiad	Swm yn arian y trafodiad
12/10/2020	20,000.00
29/09/2020	14,000.00
09/07/2020	56,000.00
11/06/2020	376.90
	90376.90

Yn anffodus, nid oes gan Trafnidiaeth Cymru y data sydd ei angen i lenwi'r ffurflen a ddarparwyd i gyd-fynd â'ch cais.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru